TORFAEN COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

# GWASANAETHAU AMGYLCHEDDOL

# AMODAU LLOGI

Telerau ac Amodau Archebu Cyfleusterau Caeau Chwarae
pitchbookingsandpayments@torfaen.gov.uk

***Diffiniadau a Dehongliad***
Yn y Telerau ac Amodau hyn

[1]. Pan fydd Llogwr sy'n peidio ag ymrwymo i weithred neu beth, ystyrir bod hyn yn cynnwys rhwymedigaeth i beidio â chaniatáu i berson arall wneud gweithred neu beth.

**Canslo**

[1]. *Y Llogwr:* Os yw'r Llogwr yn methu â rhoi o leiaf 48 awr o rybudd i ganslo neu'n methu â chynnal y gêm, bydd y Llogwr yn talu'r ffi gyfan.

[2]. *Y Cyngor:* Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ganslo unrhyw gêm os bydd angen y Cyfleusterau ar gyfer digwyddiadau neu dwrnameintiau arbennig. **Mewn achosion o'r fath rhoddir cymaint o rybudd â phosibl i'r Llogwyr. Ni fydd y Cyngor yn atebol am unrhyw golled sy'n deillio wrth ganslo unrhyw ddigwyddiadau o'r fath.**

[3] Tywydd Garw: Yn ystod tywydd garw rhaid i'r Llogwr gysylltu â Pitchbookingsandpayments@torfaen.gov.uk i ganfod a oes modd defnyddio'r Cyfleusterau i chwarae eu gêm ar benwythnos.

Bydd penderfyniad gan y Cyngor i ohirio gêm yn ystod tywydd garw yn derfynol, a hynny o ran a fydd unrhyw dir mewn cyflwr i allu chwarae. Os yw'r Llogwr yn defnyddio'r Cyfleusterau yn dilyn penderfyniad gan y Cyngor yn dweud nad oes modd chwarae ar y tir, bydd y Llogwr yn atebol am yr holl gostau fydd gan y Cyngor i adfer y Cyfleusterau i'r cyflwr lle bydd modd chwarae. Gall hefyd arwain y Cyngor i dynnu'r Cyfleusterau yn ôl byddai angen i'r Llogwr ailymgeisio am y lleoliad.

**DS: Bydd unrhyw Logwr sy'n torri'r amod hwn yn cael ei wahardd rhag defnyddio Cyfleusterau'r Cyngor. <u>Ni fydd eithriad</u>.**

**Ad - daliadau**

Telir ad-daliadau os yw'r Cyngor yn canslo gemau a hynny'n **UNIG**.

**Prisiau**

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i amrywio ei ffioedd llogi ar unrhyw adeg ac ar unwaith, trwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Llogwr.

**Darlledu**

Ni fydd y Llogwr yn rhoi hawliau darlledu sain neu deledu, na ffilmio mewn perthynas â'r Cyfleusterau heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Cyngor. Os rhoddir caniatâd o'r fath, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau a bod yn rhan o delerau ac amodau unrhyw gytundeb a wneir, gan rhannu unrhyw incwm a chyhoeddusrwydd sy'n deillio ohono.

**Yswiriant**

Bydd gan y Llogwr bolisi yswiriant mewn grym yn ystod y Cyfnod Llogi gyda pholisi dibynadwy sy'n yswirio'r Llogwr yn erbyn risgiau trydydd parti ag indemniad yn y Telerau ac Amodau hyn am swm o ddim llai na £2 filiwn, ac ar gais y Cyngor bydd yn cyflwyno tystiolaeth o'r polisi hwnnw i'r Cyngor.

**Indemniad**

Ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am golled neu ddifrod i unrhyw eiddo nac am unrhyw golled, difrod neu anaf a allai gael ei achosi gan unrhyw berson neu bersonau sy'n gysylltiedig â'r Cyfleusterau yn ystod y cyfnod llogi. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw ba bynnag achos, ac unrhyw golled o ganlyniad i unrhyw nam ar beiriannau, y cyflenwad trydan yn methu, dŵr yn gollwng, tân, cyfyngiad gan y Llywodraeth neu Waith Dduw, a allai arwain at gau'r Cyfleusterau dros dro neu beri ymyrraeth i'r cyfnod llogi neu beri iddo gael ei ganslo. Bydd y Llogwr yn indemnio'r Cyngor yn erbyn unrhyw hawliad a allai ddeillio o'r cyfnod llogi neu a allai gael ei wneud gan unrhyw berson sy'n troi at y

Cyfleusterau yn ystod y llogi mewn perthynas ag unrhyw golled, difrod neu anaf. Er mwyn osgoi pob amheuaeth cytunir drwy hyn nad yw'r Cyngor wedi rhoi unrhyw ymrwymiad neu indemniad o unrhyw natur i'r Llogwr.

**Defnyddio'r Cyfleusterau**

Ni chaiff y Llogwr ddefnyddio'r Cyfleusterau at unrhyw ddiben heblaw am y diben a awdurdodwyd**. Dylai clybiau sy'n prydlesu / sydd â'u caeau eu hunain ddefnyddio'r rhain yn y lle cyntaf.**

**Cadw Plant yn Ddiogel**

Nod y Cyngor yw amddiffyn lles plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan yn yr ystod lawn o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor, a bydd yn sicrhau bod ei sefydliadau sy'n gleientiaid/partneriaid yn ymrwymo i arfer da sy'n cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel rhag niwed. Wrth wneud hynny, bydd y Cyngor yn ystyried y ddeddfwriaeth a'r arfer gorau cyfredol ac yn cydymffurfio â hwy.

Cadw plant yn ddiogel rhag camdriniaeth pan fyddant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon wedi'u trefnu yw prif nod y Cyngor.

Rhaid i sefydliadau gwirfoddol sy'n trefnu gweithgareddau chwaraeon, chwarae a hamdden i blant, dderbyn bod atal cam-drin plant yn rhan o'u dyletswydd gofal tuag at y plant hynny.

Rhaid i'r Llogwr benodi Swyddog Amddiffyn Plant sy'n gyfrifol am sicrhau amgylchedd diogel i blant, a bod yn bwynt cyswllt ar gyfer pob mater sy'n ymwneud â diogelwch plant.

Mae Adran Adfywio a Datblygu Chwaraeon y Cyngor yn gallu cynnig cyngor a chefnogaeth i helpu llogwyr i fabwysiadu amgylchedd diogel i blant.

**Offer Sy'n Cael ei Storio**

Ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw ddifrod a allai ddigwydd i offer y Llogwr neu offer unrhyw un arall sydd wedi'i storio yn y Cyfleusterau.

Ni chaiff y Llogwr ddod ag unrhyw offer i'r Cyfleusterau i'w storio heb ganiatâd ysgrifenedig gan y Cyngor.

**Mynediad**

Mae'r Llogwr yn gyfrifol am sicrhau bob amser bod pob mynedfa i'r Cyfleusterau ac oddi yno yn cael eu cadw'n glir o gerbydau modur sy'n perthyn i aelodau'r tîm a gwylwyr. Gall methu â gwneud hynny arwain y Cyngor i wrthod y Cyfleusterau os derbynnir cwynion gan drydydd parti.

**Cerbydau**

Bydd y Llogwr yn sicrhau na fydd unrhyw gerbydau modur yn cael eu parcio ar y Cyfleusterau na'u gyrru ar draws y Cyfleusterau a bydd unrhyw gostau i'r Cyngor, sy'n deillio o unrhyw ddifrod i'r Cyfleusterau o ganlyniad cerbydau modur yn parcio arnynt neu'n gyrru ar eu traws yn cael eu hadennill gan y Llogwr.

**Cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch**

Dylai'r Llogwr neilltuo digon o amser, ymdrech ac adnoddau i sicrhau Iechyd a Diogelwch yr holl gyfranogwyr ar y tir/Cyfleusterau sy'n ei ddefnyddio o ddydd i ddydd.

Bydd y Llogwr yn penodi Swyddog Diogelwch a ddylai fod â'r cymhwysedd, y statws a'r awdurdod sy'n ddigon i gymryd cyfrifoldeb am ddiogelwch, a'r gallu i awdurdodi a goruchwylio mesurau diogelwch.

Yn ystod y Cyfnod Llogi, bydd y Llogwr yn gyfrifol am:-

[a] Oruchwylio'r Cyfleusterau'n effeithlon, yn cynnwys sicrhau bod pobl yn cyrraedd y Cyfleusterau ac yn ymadael mewn ffordd drefnus a diogel, a chlirio'r Cyfleusterau yn drefnus ac yn ddiogel rhag ofn y bydd argyfwng.

[b] Diogelwch y Cyfleusterau gan gadw trefn dda a gweddus arnynt.

[c] Sicrhau bod holl allanfeydd o'r Cyfleusterau yn cael eu cadw ar agor, heb eu cloi, ac yn ddirwystr a bod modd dianc ar unwaith drwy gydol yr amser y bydd y Cyfleusterau'n cael eu defnyddio. Ni chaniateir rhwystrau i gael eu gosod na'u gadael mewn unrhyw goridor sy'n rhoi mynediad i'r Cyfleusterau.

Os bydd sbwriel neu offer diffygiol yn cael ei storio ar unrhyw adeg yn y Cyfleusterau, ac os yw'n cael ei ystyried yn anniogel neu'n beryglus, bydd y Cyngor yn gwneud y trefniadau angenrheidiol i'w symud yn ddiogel ar draul y Llogwr.

Bydd y Llogwr yn sicrhau y cedwir at rheoliadau Tân bob amser.

Bydd y Llogwr yn sicrhau bod pob cae yn cael ei wirio'n drylwyr cyn ei ddefnyddio er mwyn sicrhau bod:

- yr ardal o faint addas sy’n caniatáu cyfle i chwarae’n ddiogel
- yr arwyneb yn addas ar gyfer y gweithgaredd sydd wedi ei chynllunio
- yr arwyneb mewn cyflwr da ac yn rhydd o wrthrychau, cerrig/gwydr peryglus.
- cyflwr unrhyw rwydi yn dda ac nad ydynt yn ymwthio ar unrhyw ardal chwarae.
- y socedi ar gyfer Cyrtiau Tenis wedi'u capio.
- y caeau’n ddiogel i gynnal gêm ar ôl amodau rhewllyd - gall caeau a oedd yn fwdlyd ar un adeg ddod yn wrymiog, sy’n beryglus iawn.
- y pyst gôl yn ddiogel.

Dylai'r Swyddog Diogelwch sicrhau bod unrhyw ddamweiniau neu fân ddigwyddiadau yn cael eu cofnodi'n ffurfiol ynghyd ag unrhyw gamau a gymerir i'w cywiro. Dylai'r cofnod hwn fod ar gael i'w archwilio gan y Cyngor.

***Cyn ac ar ôl pob digwyddiad dylai'r Swyddog Diogelwch a enwebwyd:***

Cynnal archwiliad gweledol cyffredinol i weld unrhyw arwydd o ddifrod a sicrhau bod y Cyfleusterau'n ddiogel ac yn addas i'w defnyddio.

Sicrhau ei bod yn bosibl gweithredu a chael mynediad i'r allanfeydd brys a'r pecyn Cymorth Cyntaf.

Profi drysau’r a’r allanfeydd i sicrhau eu bod yn gweithio.

Profi goleuadau, systemau cyfathrebu a systemau rhybuddio/canfod tân.

Gwirio’r tir i weld a oes sbwriel hylosg wedi cronni, ac unrhyw eitemau a allai gael eu defnyddio fel daflegrau.

Gwirio diogelwch unrhyw gynhwysydd a ddefnyddir i storio deunydd hylosg.

**Gadael Cyfleusterau'n Lân**

Ar ôl defnyddio’r cyfleusterau, rhaid i’r Llogwr eu gadael mewn cyflwr glân a threfnus a heb sbwriel.

**Trosglwyddo ac ati,**

Mae’r Cytundeb hwn er budd personol y Llogwr ac nid oes modd ei aseinio nac is-logi.

**Gwarant**

Nid yw'r Cyngor yn rhoi unrhyw warant bod y Cyfleusterau yn addas yn gyfreithiol neu'n gorfforol at unrhyw ddiben penodol.

**Methiant i Gadw at Delerau ac Amodau**

Os nad yw'r Llogwr yn cadw at unrhyw un o'r Telerau ac Amodau hyn, gall y Cyngor:

a]. codi tâl ar y Llogwr ac adennill unrhyw gostau fydd gan y Cyngor i gywiro unrhyw fethiannau, yn cynnwys costau cyflog gweithwyr, glanhawyr ac unrhyw unigolion eraill fel y bo’n briodol, a

b]. canslo’r cais gan y Llogwr i logi’r cyfleusterau ar unwaith, ac unrhyw geisiadau eraill i logi’r cyfleusterau, heb ysgwyddo unrhyw atebolrwydd i'r Llogwr i ddychwelyd unrhyw ffi neu fel arall.

**Cwynion**

Rhaid gwneud unrhyw gŵyn sy'n deillio o'r llogi yn ysgrifenedig i'r Cyngor o fewn 3 diwrnod ar ôl i'r cyfnod llogi penodol ddod i ben.

**Sut y gall y Cyngor weithredu**

Caiff y Cyngor weithredu drwy unrhyw swyddog awdurdodedig ac ystyrir bod cyfeiriadau yn y Telerau ac Amodau hyn at unrhyw gymeradwyaeth, disgresiwn, caniatâd neu ofyniad ar y Cyngor yn gyfeiriadau at gymeradwyaeth, disgresiwn, caniatâd neu ofynion unrhyw swyddog o'r fath, ac rhaid i unrhyw beth y mae'n ofynnol i'r llogwr ei gyflwyno, gael ei gyflwyno i'r swyddog hwnnw.